# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 23 Medi 1999 (cyfarfod y bore)

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Pwyllgor Gweithredol ar Drafnidiaeth Teithwyr (De Cymru)

**C6 Carwyn Jones:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i gwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod sefydlu pwyllgor gweithredol ar drafnidiaeth teithwyr yn ne Cymru? (OAQ910JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Rhaid inni roi'r flaenoriaeth gyntaf i wneud defnydd llawn o'r grymoedd a drosglwyddwyd inni, ac i'r Cynulliad ddatblygu ymateb i faterion cludiant ar draws Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cyrff rheoleiddio a gweithredwyr. Maent i gyd yn awyddus i weithio gyda ni, tra byddai pwyllgor gweithredol ar drafnidiaeth teithwyr yn dwyn pwerau oddi wrth awdurdodau lleol ac yn achosi cryn oedi wrth inni aros am fwlch ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol.

### Rhaglen Cychwyn Cadarn a'r Fargen Newydd i Gymunedau

**C7 Huw Lewis:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd hysbysu'r Cynulliad am y diweddaraf ynghylch y rhaglen Cychwyn Cadarn a'r Fargen Newydd i Gymunedau yng Nghymru? (OAQ916JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nod y rhaglen Cychwyn Cadarn yw rhoi cychwyn teg i fywyd i blant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Fe'i gweithredir gan bartneriaethau dan arweiniad awdurdodau lleol. Yr ydym wedi cael cynlluniau oddi wrth yr holl bartneriaethau lleol erbyn hyn a chaiff y rhain eu hystyried gan grwp arbenigol ychydig cyn i benderfyniadau gael eu gwneud ar ddyraniad £3 miliwn eleni.

### Ffigurau Diweithdra

**C8 Alison Halford:** A yw'r Prif Ysgrifennydd am weithredu i sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei ffigurau diweithdra oddi wrth etholaethau Cymreig? (OAQ915VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ceir ystadegau diweithdra o ddwy brif ffynhonnell, sef arolwg y gweithlu a'r cofnodion gweinyddol a gesglir yn y cyfrif hawlwyr misol. Mae dibynadwyedd y ffigurau'n dibynnu ar faint sampl arolwg y gweithlu yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai cost cynyddu'r sampl yng Nghymru, neu sefydlu arolwg arall tebyg, yn uchel ac nid oes unrhyw ddatblygiadau o'r fath yn yr arfaeth ar hyn o bryd. Mae'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn cyhoeddi niferoedd a chyfraddau diweithdra ar gyfer etholaethau Cymreig o system weinyddol yr Asiantaeth Fudd-daliadau yn y datganiad cyntaf misol o ystadegau'r farchnad lafur.

### Adroddiad Cloriannu'r NHS

**C9 David Melding:** Pa fesurau ariannol y bydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau na fydd unedau achosion llym yn cau yn sgîl adroddiad cloriannu'r NHS? (OAQ863VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dangosodd adroddiad cloriannu'r NHS broblemau ariannol difrifol yr NHS yng Nghymru ac yr ydym wedi gweithredu'n gyflym i berswadio pob corff iechyd fod yn rhaid iddynt dorri'r gôt yn ôl y brethyn a datblygu ffyrdd newydd o weithio drwy gydweithio a bod yn agored. Tra rhoddir y cynlluniau adfer hyn yn eu lle, darperir benthyciadau broceriaeth tymor-byr o hyd at £22.6 miliwn gros yn y flwyddyn ariannol hon i alluogi gwneud y newidiadau angenrheidiol ar sail gynlluniedig. Yr wyf wedi datgan yn glir fy mod yn disgwyl i gyrff yr NHS sicrhau'r effaith leiaf bosibl ar unedau achosion llym er fy mod yn cydnabod y gall fod angen penderfyniadau anodd mewn rhai achosion.

## Cysgu ar y Strydoedd

**C10 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gefnogi menter i sicrhau na fydd neb yng Nghymru yn gorfod cysgu ar y strydoedd wrth inni gamu i'r mileniwm newydd? (OAQ866VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau na ddylai fod angen i neb yng Nghymru gysgu ar y stryd, ond mae cysgu ar y stryd yn fater cymhleth. Yn aml iawn mae'n ymwneud â mwy na dim ond yr angen am lety. Mae llawer o rai sy'n cysgu ar y stryd angen cefnogaeth oherwydd anawsterau eraill fel problemau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, problemau ymddygiad, problemau seicolegol wrth ddatblygu a chynnal perthynas, unigrwydd, sgiliau cymdeithasol gwael, ac ymdopi mewn llety.

Eleni yr ydym yn ariannu 25 o gynlluniau i geisio ymdrin â digartrefedd yng Nghymru dan adran 180 Deddf Dai 1996. Mae'r rhain yn cynnwys llochesi nos, gwasanaethau estyn allan a chanolfan alw-i-mewn ar gyfer pobl ddigartref. Ar ben hynny, mae cyllid grant refeniw tai cefnogi i gymdeithasau tai'n darparu 737 o welyau mewn tai gyda chefnogaeth i bobl sengl ddigartref, yn cynnwys hostelau mynediad uniongyrchol.

## Maint Dosbarthiadau

**C11 Jonathan Morgan:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i leihau maint dosbarthiadau ysgolion uwchradd er mwyn ymladd dieithrwch cymdeithasol? (OAQ864VB) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau

**C12 Jocelyn Davies:** Pryd y mae'r Prif Ysgrifennydd yn disgwyl i'r Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau nesaf gael eu cyhoeddi? (OAQ865VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gall Gorchmynion Trosglwyddo dan adran 22 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 gael eu gwneud gan y Frenhines ar sail cyngor Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chyda chymeradwyaeth dau Dy'r Senedd. Gwnaed y Gorchymyn cyntaf o'r fath ym mis Mawrth eleni gan drosglwyddo i'r Cynulliad bron holl swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Ers hynny, nodwyd rhai diffygion a gwallau drafftio, a disgwyliaf i Lywodraeth y DU gyflwyno ail Orchymyn llawer byrrach i gywiro'r rhain pan ddychwela'r Senedd ym mis Hydref. Gan y bydd y Gorchymyn hwn yn diwygio'r un cyntaf, bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn dan adran 22(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Ceisiadau am Iawndal

**C13 John Griffiths:** Pa gamau y gall y Cynulliad eu cymryd i sicrhau bod ceisiadau gan lowyr yng Nghymru am iawndal yn cael eu prosesu'n gyflym ac yn effeithiol? (OAQ893JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ysgrifennais at Helen Liddell, y Gweinidog Ynni a Diwydiant, ar 3 Medi yn tynnu ei sylw at y pryderon cyffredin ledled Cymru ynghylch trefn brosesu ceisiadau am iawndal. Ymatebodd hithau i'r pryderon hyn drwy ymweld â chanolfan brofi sbirometreg Casnewydd a chyfarfod â mi ynghyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt. Yn ystod yr ymweliad, cyhoeddodd fod y Llywodraeth yn mynd i benodi grwp monitro i ofyn cwestiynau caled ynghylch y ffordd y caiff y cynlluniau iawndal eu gweithredu. Bydd yn cynnwys tri enwebiad o Gymru.

## Canllawiau i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol

**C14 Jane Davidson:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd roi addewid y caiff canllawiau eu hanfon at bob partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru mewn perthynas â gynnau aer sydd mewn dwylo preifat? (OAQ898VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid yw rheoli arfau tanio yn rym a ddatganolwyd, ac mae'r cyfrifoldeb yn nwylo'r Ysgrifennydd Cartref. Os oes problem benodol mewn ardal arbennig, mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol leol yn darparu fforwm lle gellir canfod atebion lleol.

Mae deddfwriaeth ar arfau tanio'n cael ei harchwilio'n fanwl o hyd i weld a oes angen gwneud unrhyw beth pellach i warchod diogelwch y cyhoedd. Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio yn ystyried y mesurau i reoli arfau aer fel rhan o'i raglen waith ar gyfer eleni. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref yn cynnal ymchwiliad i'r ddeddfwriaeth ar arfau tanio, gan gynnwys y deddfau ynghylch arfau aer, ac mae'n cymryd tystiolaeth ysgrifenedig ar hyn o bryd.

## Cofnodion y Pwyllgor Busnes

**C15 David Davies:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i ganiatáu i'r cyhoedd weld cofnodion y Pwyllgor Busnes? (OAQ906VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mater i'r Pwyllgor Busnes yw hyn.